Hosbis Dewi Sant
St David's Hospice

www.stdavidshospice.org.uk

Uned Ddydd

Mae ein Huned Ddydd yn
derbyn 10 o bobl y dydd rhwng

Dydd Mawrth a Dydd Gwener

Cynigir apwyntiadau unigol a chynghori
mewn profedigaeth ar ddyddiau Llun.

Am wybodaeth, ffoniwch (01492) 879058
Ewch i www.stdavidshospice.org.uk
Rydym ar Ffordd yr Abaty, Llandudno, Conwy, LL30 2EN

Yn naturiol mae llawer o bobl yn bryderus pan drafodir gwasanaethau Hosbis am y tro cyntaf. Ein nod yw gwneud i'r rhai sy'n dod i'r Uned Gofal Dydd deimlo wedi ymlacio a'u bod yn derbyn cefnogaeth.

Mae ein cleifion yn mynychu'r Uned Ddydd am wahanol resymau – gofal meddygol a nyrsio arbenigol gan dîm proffesiynol llawn, y cyfle i gyfarfod â rhai eraill mewn sefyllfaoedd tebyg neu er mwyn rhoi rhywfaint o seibiant i'w gofalwr am ddiwrnod yr wythnos.

Mae pob un o'n cleifion Uned Ddydd yn gallu byw gartref, ond maen nhw'n cael budd o dreulio diwrnod mewn man lle gallant fanteisio ar holl wasanaethau'r Hosbis - cefnogaeth gorfforol, emosiynol, ysbrydol a seicolegol..

Mae ein Huned Gofal Dydd yn lleoliad diogel a chefnogol lle darparwn ofal arbenigol i unigolion a grwpiau yn rhad ac am ddim, i oedolion sydd ag afiechyd terfynol.

Yn fwy na dim, mae'r Uned Ddydd yn fan cefnogol, wedi'i deilwrio i anghenion yr unigolion. Mae'n bwysig eich bod yn rhan o hyn a'n bod yn ymgynghori â chi am bob agwedd ar eich gofal, bob cam o'r ffordd. Gobeithiwn fod ein cleifion yn dychwelyd adref yn teimlo eu bod yn werthfawr, wedi ymlacio, bod rhywun yn gofalu amdanynt a'u bod yn rheoli eu salwch.

Y Brif Weinyddes Gwen Thomas

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Am ba hyd y byddai angen i mi ddod i mewn?

Cwrs o tua 8 wythnos. Fe'i cynigir a'i adolygu'n rheolaidd a gall cynllun gofal unigol wahaniaethu rhwng un claf a'r llall.

Beth fydd patrwm fy niwrnod?

Bydd cleifion yn cyrraedd o 10am ymlaen, ac mae dewis o gael cludiant gyda'n gyrwyr gwirfoddol. Rydym yn cynnig y gwasanaethau canlynol tan 3.30pm.

- Monitro a rheoli symptomau gan staff nyrsio a meddygol hyfforddedig.
- Cefnogaeth seicolegol, ysbrydol ac emosiynol.
- Therapïau cyflenwol - gan gynnwys tylino ac adweitheg
- Therapïau dargyfeiriol - gweithgareddau celf a chrefft
- Pryd o fwyd a lluniaeth
- Seibiant i deuluoedd a gofalwyr

Beth ddylwn i ddod gyda mi?

Mae angen i chi ddod ag unrhyw feddyginiaeth a gorchuddion a ragnodwyd i chi ac y byddech yn eu cymryd fel arfer yn ystod cyfnod eich ymweliad. Ni fyddwch angen unrhyw symiau mawr o arian nag unrhyw bethau gwerthfawr.

Beth nesaf?

- I drafod cyfeiriad i Dewi Sant, siaradwch â'ch meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.
- Sylwch os gwelwch yn dda fod gan Hosbis Dewi Sant bolisi dim ysmygu llym.
- Nid ydym yn caniatáu ymwelwyr yn yr Uned Ddydd oherwydd mai byr yw hyd yr ymweliad ac er mwyn rhoi rhywfaint o seibiant i ofalwyr.
- Am ragor o ymholiadau neu gyngor, cysylltwch â staff yr Hosbis (01492 879058.)

Hosbis Dewi Sant
St David's Hospice

www.stdavidshospice.org.uk

Day Unit

Our Day Unit admits 10 people per day

Tuesday to Friday

Mondays offers individual appointments and bereavement counselling.

For information, call (01492) 879058

Visit www.stdavidshospice.org.uk

Find us at Abbey Road, Llandudno, Conwy, LL30 2EN

Many people are naturally anxious when Hospice services are first discussed. It is our aim to make those coming to the Day Unit feel relaxed and supported.

Our patients attend the Day Unit for a variety of reasons - specialist medical and nursing care from a full, professional team, the chance to meet others in similar situations or simply to allow their carer some respite for one day a week.

All of our Day Unit patients are able to live at home, but benefit from spending a day where they can take advantage of all of the Hospice's services - physical, emotional, spiritual and psychological support.

Our Day Unit is a safe and supportive environment where specialist individual and group care is provided completely free of charge, for adults with a terminal illness.

Above all, the Day Unit is a supportive place, tailored to the individuals' needs. It is important that you are involved and consulted about all aspects of your care, every step of the way. We hope that our patients return home feeling valued, relaxed, cared for and in control of their illness.

Sister Gwen Thomas

Frequently Asked Questions

How long would I need to come for?

A course of approximately 8 weeks. It is offered and reviewed on a regular basis and an individual care plan may differ from one patient to another.

What will my day involve?

From 10am, patients arrive and there is the option of transport with our volunteer drivers. We offer the following services until 3.30pm…

- Monitoring and management of symptoms by trained nursing and medical staff.
- Psychological, spiritual & emotional support
- Complementary therapies - including massage and reflexology
- Diversional therapies – arts and craft activities
- Meal and refreshments
- Respite for families and carers

What do I need to bring with me?

You are required to bring any prescribed medication that you would normally take during the period of your visit and dressings. You will not require any large sums of money or valuables.

What next?

- To discuss a referral to St David's, please speak to your GP or other Healthcare Professional.
- Please note St David's Hospice has a strict no smoking policy.
- We do not allow visitor's at the Day Unit, due to the short duration of the visit and in allowing carer's some respite.
- For further enquiries or advice, please do not hesitate to contact staff at the Hospice (01492 879058.)